

# Rheoli Ardaloedd Trefol ar gyfer Peillwyr

Mae bron i 10% o arwynebedd tir y DU yn drefol. Mae'r ardaloedd trefol hyn yn aml yn cynnal amrywiaeth eang o gynefinoedd sy'n tyfu'n bwysicach ar gyfer llawer o rywogaethau o beillwyr, yn enwedig o'u rheoli'n gywir. Mae'r canllaw hwn yn amlygu pa gynefinoedd mewn ardaloedd trefol sy'n bwysig a sut y gellir eu rheoli'n well i annog peillwyr.

## Cynefinoedd pwysig mewn ardaloedd trefol a'u rheolaeth

**Parciau cyhoeddus, tiroedd ysgol a pharciau busnes**

Mae'r lleoliadau hyn, yn gyffredinol, yn cynnwys tirlunio ffurfiol sylweddol gyda, fel arfer, hydoedd eang o laswelltir wedi ei dorri, coed, gwelyau blodau a llwyni. Gellir gwella gwerth y cynefinoedd hyn yn rhwydd trwy:

- Sicrhau bod amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion yn bresennol fydd yn blodeuo trwy'r flwyddyn, yn enwedig rhywogaethau sy'n blodeuo'n gynnar.
- Creu gwahanol nodweddion gwlyptir (e.e. pyllau ac ardaloedd corsiog) er mwyn darparu cartrefi ar gyfer peillwyr sydd â larfâu dyfrol.
- Caniatáu i forderi o ardaloedd sy'n fwy gwyllt, sy'n cynnwys blodau tal fel efwr, creulys, ysgall a danadl poethion, a chlytiau o brysgwydd agored, ddatblygu gyda llwyni mwyar, drain duon ac eithin er mwyn darparu porthiant a chynefin nythu ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau.
- Trawsnewid ardal o laswellt a dorrir yn aml, sydd heb fawr ddim amrywiaeth o rywogaethau, yn ddôl blodau gwyllt a gweirglodd, un ai trwy beidio â thorri'r gwair er mwyn caniatáu i rywogaethau sy'n bresennol eisoes ymsefydlu, neu trwy hau hadau gweiriau a blodau gwyllt brodorol. Mae'n bwysig sefydlu rhaglen reoli briodol ar gyfer y dolydd hyn trwy sicrhau eu bod yn cael eu torri o leiaf unwaith y flwyddyn (yn ddelfrydol yn yr hydref) a bod y torion yn cael eu clirio a'u cario o'r safle. Trwy glirio a gwaredu'r torion byddwch yn lleihau'r maetholion, fydd o fudd i'r blodau gwyllt y flwyddyn ganlynol.

### Cynefinoedd ar gyfer peillwyr mewn ardaloedd trefol

Mae ardaloedd trefol yn cynrychioli bron i 10% o dir yn y DU ac maent yn cynnwys amrywiaeth aruthrol o gynefinoedd a nodweddion eraill all gynnal cannoedd o rywogaethau o bryfed peillio ac infertebratau eraill, yn cynnwys:

- Gerddi cyhoeddus a phreifat
- Mynwentydd
- Ardaloedd blodeuog sy'n rhan o diroedd ysgol, caeau chwaraeon a chyrsiau golff trefol
- Parciau busnes wedi eu tirlunio
- Parciau trefol a lleiniau o dirlunio ffurfiol gyda blodau e.e. gwelyau blodau a llwyni
- Coed ar strydoedd
- Coridorau trafnidiaeth fel ffyrdd, rheilffyrdd, llwybrau beiciau a chamlesi a meysydd parcio llai ffurfiol gyda rhywfaint o lystyfiant
- Safleoedd tir llwyd (yn cynnwys hen chwareli a thomenni rwbel), safleoedd dros dro a thir arall sydd wedi ei styrbio
- Cyrsiau dŵr fel afonydd a nentydd
- Pyllau, llynnoedd a gwlyptiroedd
- Adeiladau a strwythurau adeiledig eraill (e.e. pontydd a hen waliau) gyda photensial ar gyfer nodweddion sy'n gyfeillgar i beillwyr
- Cynefin lled-naturiol amgaead, fel olion o laswelltir gorlifdir, prysgwydd, coetir, gwlyptir neu rostir
- Gwarchodfeydd natur bychain ac ardaloedd eraill o gynefinoedd a grëwyd

**Gofodau gwyrdd anffurfiol**

Mae'r rhain yn cynnwys gorlifdir trefol, rhostir, tir llwyd, glaswelltiroedd sy'n llawn rhywogaethau ac ardaloedd eraill o ofod gwyllt y bydd y cyhoedd yn eu defnyddio'n anffurfiol. Caiff y cynefinoedd hyn lawer o ddefnydd gan bobl yn cerdded cŵn, beicwyr a rhedwyr ac, oherwydd eu cyflwr gwyllt, gallant fod yn hynod o bwysig ar gyfer peillwyr a bywyd gwyllt arall. Gall y cynefinoedd hyn weithredu fel coridorau a cherrig sarn sy'n rhyngweithio'n sylweddol gyda chynefinoedd eraill yn cynnwys gerddi, gofod gwyrdd ffurfiol, coridorau trafnidiaeth a choedydd trefol, gan ganiatáu i unigolion a rhywogaethau symud a chymysgu ar draws yr ardal.

Mae'n bwysig i'r cynefinoedd hyn gael eu cydnabod, eu rheoli'n briodol, a'u gwarchod ar gyfer y bywyd gwyllt y maent yn eu cynnal. Gallai'r gwaith rheoli angenrheidiol gynnwys torri a chlirio glaswelltir, tocio prysgwydd a choetiroedd, rheoli llwyni mwyar a styrbio'r tir ar bwrpas er mwyn sicrhau nad yw cyfnodau olynol cynnar yn cael eu colli (yn enwedig ar dir llwyd). Gellir creu cynefin ychwanegol ar y safleoedd hyn er mwyn darparu buddiannau pellach, fel creu pyllau, tomenni rwbel, coed marw, torlannau gwenyn a gwestai gwenyn. Dylid osgoi plannu coed ar safleoedd sydd eisoes yn werthfawr ar gyfer peillwyr a gwahanol fywyd gwyllt a pheidiwch â chyflwyno cymysgeddau o hadau gwyllt, oni bai fod budd amlwg i wneud hynny, oherwydd fe allech ddifrodi safle sy'n werthfawr eisoes.

**Coridorau trafnidiaeth trefol**

Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd a geir ar hyd ymylon ffyrdd, traffyrdd, rheilffyrdd, camlesi, llwybrau beiciau a strydoedd cefn. Yn aml, bydd coridorau trafnidiaeth yn caniatáu i rywogaethau symud a chymysgu trwy ardal drefol. Mae rhai coridorau trafnidiaeth yn ddigon sylweddol i gynnal ystod eang o gynefinoedd llednaturiol, tra bo eraill yn rhy gul. Ond gellir cyfoethogi nodweddion cul ar gyfer peillwyr trwy blannu llwyni ac Iorwg a phlanhigion dringo eraill i dyfu i fyny waliau a ffensys. Am fwy o wybodaeth, gweler y daflen **"Coridorau Trafnidiaeth ar gyfer Peillwyr"**.

**Coed a choedydd trefol**

Mewn ardaloedd trefol, bydd coetiroedd yn amrywio'n sylweddol o ran maint a rhywogaethau o blanhigion, o weddillion coedydd hynafol o ansawdd neilltuol (a geir yn aml mewn gwarchodfeydd natur penodedig) i safleoedd sydd wedi eu styrbio'n sylweddol sydd â fawr ddim blodau ar lawr. Bydd coedydd trefol, ar y cyfan, yn profi llawer mwy o bwysau adloniadol na rhai gwledig ac maent yn fwy tebygol o ddioddef problemau gyda rhywogaethau goresgynnol, fel Rhododendron.

Dylid cynnal arolwg pwrpasol o goetiroedd a'u rheoli gan ystyried y bwyd gwyllt sy'n bresennol. Efallai y bydd angen prysgoedio'r coetir i greu llecynnau agored ar gyfer ymylon blodeuog, neu efallai y bydd plannu rhywogaethau brodorol yn helpu i gyflwyno isdyfiant amrywiol sy'n llawn blodau, neu greu a rheoli coed marw.

Yn ogystal â chynnwys coetir, efallai y bydd ardaloedd ar draws ardal drefol yn cynnwys coed unigol neu wasgaredig, e.e. ar hyd ymyl ffordd neu o fewn ardal o laswelltir amwynder. Mae rhywogaethau poblogaidd o goed sy'n blodeuo'n cynnwys ceirios, drain gwyn, criafol,













castanwydd y meirch, pisgwydd, coeg-acasiâu a masarn, a gall amrywiaeth o goed ar safle ddarparu cyfres flodeuo o fis Mawrth i fis Gorffennaf. Gall coed hŷn, sy'n blodeuo neu beidio, gynnal nodweddion sy'n addas ar gyfer larfâu pryfed hofran saprocsylig, fel tyllau pwdr yn llawn dŵr, gwreiddiau sy'n pydru, llif nodd a rhuddin pwdr, er bod ystyriaethau iechyd a diogelwch yn dueddol o orbwyso rhai ecolegol unwaith i'r pydredd fynd yn rhy bell. Ond mae'n bosibl gweld coed hynafol yn y tirwedd trefol e.e. efeilliaid enwog Parc Preston, Brighton (y llwyfenni Lloegr hynaf ym Mhrydain). Am fwy o wybodaeth, gweler y daflen **"Coetiroedd ar gyfer Peillwyr"**.

### Mynwentydd

Gall hen fynwentydd gynnal glaswelltir llawn rhywogaethau pwysig sydd wedi eu harbed rhag gwelliannau amaethyddol. Gellir rheoli'r glaswelltir yma fel gweirgloddiau traddodiadol, ond dylech ei gadael mor hwyr â phosibl cyn eu torri (yn yr hydref) er mwyn caniatáu i'r holl blanhigion sy'n bresennol flodeuo a mynd i had. Yn aml, bydd mynwentydd hefyd yn cynnwys coed hynafol neu aeddfed gwerthfawr a llwyni sy'n blodeuo. Caiff llawer o fynwentydd eu gor-reoli fel eu bod yn cynnwys fawr ddim blodau. Gall cwtogi'r amserlen torri gwair arwain at ffurfio glaswelltir blodeuog yn naturiol er, i'r gwrthwyneb, gall rhai lawntiau mynwentydd sydd wedi eu torri'n fyr gynnal casgliadau mawr iawn o nythod gwenyn turio.

Gall agwedd llai ffurfiol tuag at dorri gwair droi mynwent yn hafan ar gyfer peillwyr.

### Gwenyn unig

Ceir tua 250 o rywogaethau o wenyn unig yn y DU a dyma ein grŵp mwyaf effeithlon o beillwyr. Bydd gwahanol rywogaethau o wenyn unig yn nythu un ai ar dir noethlwm (yn aml mewn torlannau) neu mewn tyllau mewn coed neu waliau. Er mwyn helpu gwenyn unig sy'n nythu yn y ddaear, ystyriwch greu pwll bas neu dorlan gwenyn ar safle sych, mewn tir noethlwm neu â fawr ddim llystyfiant a / neu ar lethr sy'n wynebu tua'r de. Ar gyfer gwenyn unig sy'n nythu mewn tyllau, gallwch ddylunio a chreu eich gwesty gwenyn eich hun gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau, fel darn o bren gyda thyllau o wahanol faint wedi eu drilio ynddo a / neu wiail bambŵ; gwnewch yn siŵr eich bod yn lleoli eich gwesty gwenyn mewn llecyn cynnes, cysgodol. Bydd plannu blodau gwyllt wrth ymyl eich cartrefi gwenyn yn darparu porthiant pwysig ar gyfer gwenyn aeddfed sy'n llanw eu nythod â phaill er mwyn galluogi eu larfâu i ddatblygu'n llwyddiannus. Y saerwenynen Goch (Osmia bicornis) yw un o ddefnyddwyr pennaf gwestai gwenyn, gan ddefnyddio tyllau mewn pren a bambŵ (gweler y llun isod), er y bydd infertebratau eraill yn eu defnyddio hefyd, yn cynnwys corynnod, morgrug a chacwn meirch a mursennod torheulo a glöynnod byw.



Lluniau, o'r chwith i'r dde: ceir amrywiaeth eang o wahanol westai gwenyn o bob maint; saerwenynen Goch yn nythu mewn gwesty gwenyn bambŵ; torlan gwenyn gyda llystyfiant tenau.

### Rhandiroedd a pherllannau

Gall rhandiroedd fod yn rhai o nodweddion mwyaf blodeuog amgylchedd trefol, ac yn aml bydd deiliaid rhandiroedd yn gosod cymaint o bwyslais ar dyfu plotiau'n llawn blodau ac y byddant ar dyfu ffrwythau a llysiau. Mae perllannau trefol yn ffynhonnell gyfoethog o flodau'r gwanwyn (ar goed y berllan) ond efallai na fyddant yn cynnwys glaswelltiroedd blodeuog o dan y coed. Os yw hynny'n wir, ceisiwch leihau'r amserlen torri glaswellt neu defnyddiwch gymysgedd o hadau blodau gwyllt i wella amodau. Mae'r rhain yn lleoliadau delfrydol ar gyfer creu a gosod gwestai gwenyn a thorlannau gwenyn.

### Strwythurau adeiledig

Fel arfer, caiff gwerth posibl adeiladau, pontydd a waliau ar gyfer peillwyr eu tanbrisio. Bydd natur fel arfer yn eu gwneud yn werthfawr heb unrhyw help. Er enghraifft, mae wal wedi ei gorchuddio gydag Iorwg sy'n blodeuo ar ddiwedd yr hydref yn bwysig ar gyfer nifer o rywogaethau o wyfynod a chacwn meirch. Bydd trwyny- llo dail eiddew, mwg-y-ddaear melyn, creulys Rhydychen a'r triaglog goch yn aml yn harddu hen waliau ac yn darparu porthiant pwysig ar gyfer peillwyr a chartrefi ar gyfer infertebratau eraill.

Mae'n bosibl cyfoethogi strwythurau adeiledig, fel toeau a waliau, trwy gynnwys fframwaith gwyrdd fel toeau gwyrdd byw, gerddi to a waliau byw. Mae'r arwynebedd posibl ar gyfer hyn mewn trefi a dinasoedd yn sylweddol ac mae'n cynnig cyfleoedd i beillwyr symud trwy dirwedd trefol gan ddefnyddio fframwaith gwyrdd adeiledig fel cerrig sarn. Yn ogystal, gellir cynnwys nodweddion fel gwestai gwenyn, torlannau gwenyn, pyllau a choed marw yn y fframwaith gwyrdd yma.

Am fwy o wybodaeth, gweler **"Creating Green Roof for Invertebrates"**, canllaw arfer gorau gan Buglife sydd ar gael ar ein gwefan.

## Sut fydd peillwyr yn defnyddio ardaloedd trefol?

Mae pryfed peillio angen tirwedd amrywiol iawn sy'n darparu cynefinoedd porthi yn ogystal â nythu er mwyn eu galluogi i gwblhau eu cylchoedd bywyd yn llwyddiannus. Bydd tirweddoedd trefol yn aml yn darparu'r cynefinoedd hanfodol hyn mewn nifer o wahanol ffyrdd.

### Blodau porthiant

Mae'n gyffredin iawn gweld amrywiol rywogaethau o goed, llwyni a phlanhigion sy'n blodeuo mewn ardaloedd trefol gaiff eu plannu'n drwchus yn aml, ac fydd yn darparu blodau trwy holl fisoedd y flwyddyn. Bydd ardaloedd wedi'u plannu'n aml yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau brodorol, a rhai sydd wedi henymsefydlu, ochr-yn-ochr â rhywogaethau dros dro a rhai cwbl arddwrol. Bydd y gyfran o flodau brodorol o'i gymharu â'r gyfran o flodau estron yn amrywio'n ôl y math o ofod trefol gwyrdd a'i hanes lleol. Mae'r gyfran o blanhigion brodorol yn tueddu i fod uchaf mewn ardaloedd mwy naturiol, fel glaswelltir gorlifdir caeëdig a choetiroedd hŷn, ac isaf mewn lleoliadau ffurfiol fel parciau trefol a thiroedd ysgol. Tra ei bod yn dda inni annog planhigion brodorol ble fo modd, gall peillwyr ddefnyddio nifer o flodau egsotig, estron gymaint â rhai brodorol, a gall blodau estron o'r fath helpu i ymestyn y tymor porthi o'r hydref ymlaen i ddechrau'r gwanwyn.

Mae ardaloedd trefol, gan amlaf, yn gysylltiedig â microhinsawdd cynhesach. Mae hyn yn caniatáu i beillwyr mewn ardaloedd trefol wneud y gorau o ddyddiau cynnes yn y gaeaf, na fyddai'n bosibl efallai yng nghefn gwlad, a gall hyn hyd yn oed fod o fudd i'r wlad gerllaw e.e. caniatáu i freninesau'r gwenyn fod yn fwy gweithgar ar ddechrau'r gwanwyn. Mae nifer o rywogaethau o beillwyr, yn cynnwys cacwn, gwenyn mêl *(Apis mellifera)* a rhai pryfed wedi eu cofnodi'n porthi trwy gydol y gaeaf, yn arbennig ar ddyddiau mwyn.

## Peillwyr prin

Weithiau, ceir hyd i beillwyr prin a rhai sydd dan fygythiad mewn ardaloedd trefol, weithiau fel ymwelwyr ond weithiau fel trigolion sy'n bridio yma. Yn yr achos olaf, mae'n neilltuol bwysig inni ddynodi gofynion rheoli'r rhywogaeth benodol honno (e.e. gwarchod safle neu fath o gynefin penodol, fel hen goed) a chyfrif am y rhain mewn penderfyniadau rheoli a chytundebau cynnal a chadw.

Mae hygyrchedd gwybodaeth am rywogaethau prin yn amrywio'n fawr, e.e. mae gan Butterfly Conservation lawer o wybodaeth ar löynnod byw a gwyfynod ond mae'n anoddach cael gafael ar wybodaeth am wenyn, pryfed hofran neu chwilod. Os oes gennych beilliwr prin ar y safle yr ydych yn ei reoli ac yr hoffech gyngor, cysylltwch â Buglife. Os yw'r safle dan sylw yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, dylech hefyd gysylltu â'r sefydliad statudol perthnasol (e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Natural England, Scottish Natural Heritage ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon).



Lluniau rhai o'r peillwyr prin y gwyddom sydd i'w gweld mewn ardaloedd trefol, yn glocwedd o'r chwith uchaf: Y pryfyn hofran *Mallota*.

### Datblygiad larfaol

Mae gan wahanol rywogaethau o beillwyr ofynion penodol o ran cynefin er mwyn cwblhau eu cylchoedd bywyd. Mae amrywiaeth cynefinoedd o fewn ardaloedd trefol yn caniatáu i lawer o rywogaethau wneud hyn:

- Llynnoedd, pyllau, cwteri, ffosydd a chyrsiau dŵr ar gyfer peillwyr sydd â larfâu dyfrol.
- Ysglyfaeth ac organebau lletyol ar gyfer y peillwyr rheibus a pharasitig niferus, e.e. pryfed hofran gyda larfâu sy’n bwyta llyslau neu sy’n datblygu mewn nythod gwenyn, a phryfed a chacwn gyda larfâu sy’n datblygu y tu mewn i infertebratau eraill.
- Coed marw a choed aeddfed ar gyfer pryfed hofran a chwilod sydd â larfâu ‘saprocsylig’ a gwenyn unig sy’n nythu’n uchel, yn cynnwys y saerwenynen a’r wenynen ddeildorrol.
- Llethrau heulog, torlannau ac ardaloedd o ddaear sych, noethlwm (e.e. gwelyau blodau) ar gyfer gwenyn turio sy’n nythu yn y ddaear a’u parasitiaid (e.e. gwenynbryfed a gwenyn crwydrol).
- Hen dyllau llygod ar gyfer cacwn sy’n nythu.
- Planhigion bwyd penodol ar gyfer larfâu llysysol amrywiaeth o bryfed peillio, fel glöynnod byw a gwyfynod.
- Tail anifeiliaid ar gyfer amrywiaeth o bryfed sy’n ymweld â blodau, e.e. pryfed tail, anthomyiiae a muscidae.
- Burgyn ar gyfer pryfed chwythu, yn cynnwys pryfed glas.

### Gaeafu

Gall unrhyw lystyfiant trwchus (e.e. glaswelltir twmpathog), llwyni mwyar, prysgwydd trwchus, tomenni compost, strwythurau segur, tomenni rwbel, pentyrrau o foncyffion a rwbel mewn amgylchedd trefol ddarparu lloches ar gyfer pryfed aeddfed sy’n gaeafgysgu, fel breninesau gwenyn a chacwn meirch cymdeithasol, a rhai glöynnod byw a phryfed hofran; yn ogystal â larfâu, chwilerod ac wyau nifer o wahanol rywogaethau sy’n gaeafu. Gall safleoedd gaeafgysgu helpu i gynyddu niferoedd llawer o’n peillwyr.

## Natur dymhorol blodeuo

Mae cynefinoedd trefol yn aml yn arddangos elfen dymhorol gref ac mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr amrywiaeth o flodau sy’n bresennol yn ystod y flwyddyn a’r peillwyr y bydd y blodau yma’n eu denu. Mae’r canlynol yn ceisio crynhoi’r gyfres gyffredinol o flodau sy’n bresennol mewn amgylchedd trefol yn ystod blwyddyn arferol.

### Gwanwyn

Mae dyfodiad y gwanwyn ychydig yn gynharach mewn ardaloedd trefol nag yng nghefn gwlad, oherwydd y microhinsawdd cynhesach. Mae’r blodau cyntaf ym mis Mawrth yn bwysig iawn ar gyfer peillwyr sy’n deffro o’u gaeafgwsg, fel breninesau cacwn, gwenyn turio (*Andrena*) a phryfed hofran, fel y pryf hofran Marmalêd (*Episyrphus balteatus*). Mae planhigion sy’n blodeuo ym mis Mawrth yn cynnwys y goeg-geirios, grug cynnar, saffrwm, crafanc-yr-arth, helyg deilgrwn, eithin, carn yr ebol a’r farddanhadlen goch.

Mis prysuraf breninesau cacwn a gwenyn turio unig ar draws y rhan fwyaf o Brydain yw mis Ebrill, a bydd niferoedd ac amrywiaeth llawer o beillwyr eraill, fel pryfed hofran a rhai glöynnod byw yn cynnwys Mantell Paun (*Aglais io*) a’r Trilliw Bach (*Aglais urticae*), yn cynyddu’n sylweddol yn ystod y mis yma. Mae blodau coed a llwyni sy’n blodeuo, fel ceirios, eirin, afal, helyg, cwrens a masarn yn gwasanaethu amrywiaeth eang o rywogaethau o bryfed peillio. Mae planhigion eraill sy’n blodeuo ym mis Ebrill yn cynnwys dant y llew a llygad y dydd sy’n doreithiog ar lawntiau (ddylen ni ddim tanbrisio gwerth y rhain) yn ogystal â’r farddanhadlen wen, llysiau’r-gwrid gwyrdd, fioled a chreulys Rhydychen, mewn ardaloedd trefol mwy gwyllt. Gall porthi llwyddiannus ym mis Ebrill helpu i bennu’r nifer o beillwyr a welir yn hwyrach yn y flwyddyn, yn cynnwys niferoedd y cacwn gweithgar.

Erbyn diwedd y gwanwyn, bydd y dyddiau’n ymestyn a’r tymheredd cymedrig cyfartalog yn dechrau codi. Mis Mai yw un o’r misoedd gorau ar gyfer niferoedd ac amrywiaeth peillwyr, gydag amrywiol fathau o chwilod (e.e. chwilen malachit, y chwilen gorniog a’r chwilen filwrol) bellach yn ymuno â’r rhengoedd o bryfed a gwenyn. Mae mannau



Mae’r pryfed peillio sy’n weithgar yn y gwanwyn yn cynnwys (o’r chwith i’r dde): gwenynen durio lwydfelen (*Andrena fulva*), y ffugwenynen (*Eristalis tenax*), a’r gwenynbryf ymyl dywyll (*Bombylius major*).

gwyrdd ffurfiol yn cynhyrchu amrywiaeth cynyddol o lwyni a pherlysiau blodeuol, yn cynnwys planhigion gwelyau blodau a basgedi crog. Darperir blodau ar goed ar ddiwedd y gwanwyn gan gastanwydden y meirch, y ddraenen wen, cotoneaster a’r tresi aur. Mewn ardaloedd mwy gwyllt bydd amrywiaeth o blanhigion yn eu blodau’n cynnwys banadl, gorthyfail, blodyn neidr, berwr y gaeaf, rhwyddlwyn, pig-yr-aran a chlychau’r gog brodorol.

**Haf**

Mae peillwyr yr haf yn cynnwys llu o wenyn, cacwn meirch, pryfed, glöynnod byw, gwyfynod a chwilod. Bydd y rhain yn cynnwys epil y peillwyr oedd yn hedfan o gwmpas yn y gwanwyn e.e. cacwn gweithgar a’r ail genhedlaeth o bryfed hofran a glöynnod byw neilltuol, ond hefyd beillwyr a welir yn benodol yn yr haf, fel y wenynen ddeildorrol a’r wlanwraig (*Anthidium manicatum*).

Mae nifer o fathau o blanhigion brodorol, cynefin a garddwrol, yn blodeuo dros fisoedd yr haf. Mae coed blodeuog yn aml yn cynnwys pisgwydd, castanwydd pêr a choeg-acasiâu. Mewn lleoliadau mwy naturiol, mae planhigion fel efwr, ysgall, y bengaled, clafrllys y maes, creulys a llwyni mwyar yn arbennig o bwysig. Gall bwdleia fod yn bresennol mewn lleoliadau ffurfiol yn ogystal â rhai mwy naturiol, fel safleoedd tir llwyd, ac er ei bod yn ddeniadol i rai peillwyr (yn enwedig cacwn a glöynnod byw) gall fod yn hynod o oresgynnol.

**Hydref**

Bydd amrywiaeth y blodau a’r pryfed peillio’n lleihau gan amlaf yn ystod yr hydref, er y caiff ei gynnal rywfaint yn hwyrach mewn ardaloedd trefol. Mae planhigion sy’n blodeuo’n hwyr yn darparu’r prydau olaf ar gyfer y pryfed hynny sy’n gaeafu fel oedolion, yn cynnwys breninesau’r gwenyn a rhai glöynnod byw. Mae blodau sy’n bresennol yn yr hydref yn cynnwys rhywogaethau garddwrol fel blodyn-Mihangel, rhewlysiau ac eurwialen Canada, yn ogystal â Iorwg a thamaid y cythraul, sy’n arbennig o bwysig ar gyfer pryfed peillio.

**Gaeaf**

Ar y cyfan, bydd ardaloedd trefol yn cynnal nifer fechan o flodau dros fisoedd y gaeaf a gall peillwyr ddefnyddio’r rhain ar ddyddiau mwyn yn y gaeaf. Gall y rhain gynnwys gwyddfid syth, mahonia dail celynnog, ceiriosen y Gaeaf, grug y gaeaf, bara’r hwch, briallu’r gerddi ac eirlysiau cynnar. Mae ‘chwyn’ brodorol neu gynefin, all flodeuo dros y gaeaf, yn cynnwys dant y llew, y farddanhadlen goch a chreulys.

**Peillwyr tafod hir**

Ceir llawer o rywogaethau o bryfed peillio sydd â thafod hir, yn cynnwys cacwn, gwyfynod a glöynnod byw, sydd ond yn gallu porthi o flodau rhywogaethau penodol o blanhigion. Er enghraifft, cacynen yr ardd (*Bombus hortorum*) sydd â’r tafod hiraf ymhlith holl gacwn y DU a fydd, fel arfer, yn porthi o blanhigion â blodau hir fel bysedd y cŵn, meillionen goch a’r gwiberlys.



Cacynen yr ardd yn porthi ar feillion coch.

## Darllen pellach


- Buglife. Gwe-dudalennau ‘Living Roofs’: https://www.buglife.org.uk/campaigns-and-our-work/habitatprojects/living-roofs
- DEFRA 2014. Anghenion gwenyn: Pollinator advisory sheets: http://www.wildlifetrusts.org/beesneeds/information-sheets
- Kirby, P. 1992. Habitat Management for Invertebrates: a practical handbook. RSPB.
- Buglife. Gwe-dudalennau Living Roofs: www.buglife.org.uk/campaigns-and-our-work/habitat-projects/living-roofs
- Baldock, K. et. al. 2015 Managing urban areas for insect pollinators. Living With Environmental Change Policy and Practice Notes No.20 (Insect Pollinators Initiative).
- Gunnell, K., Murphy, B. a Williams, C. Designing for Biodiversity: A Technical Guide for New and ExistingBuildings (2nd edition). RIBA Publishing.
- RHS Gwefan ‘Perfect for pollinators’: https://www.rhs.org.uk/science/conservationbiodiversity/wildlife/encourage-wildlife-to-your-garden/plants-for-pollinators


**Cydnabyddiaeth ffotograffiaeth © Steven Falk a Buglife**

buglife.org.uk    01733 201210    @buzz_dont_tweet

Buglife - The Invertebrate Conservation Trust is a company limited by guarantee,
Company no. 4132695 Registered charity no. 1092293 Scottish charity no. SC040004.
Registered in England at The Lindens, 86 Lincoln Road, Peterborough PE1 2SN

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**